

Arolwg 50+ 2017 - Canlyniadau Allweddol

Isod, mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi cael eu crynhoi i roi trosolwg o'r prif ganlyniadau. Mae'r adrannau wedi cael eu rhannu i'r themâu canolog a oedd yn rhan o'r arolwg.

Theatrau

- Mae mwy na 60% o unigolion heb ymweld ag unrhyw un o'r tair theatr yn Sir Gaerfyrddin yn y deuddeg mis diwethaf. Y prif reswm dros fynd i'r theatrau oedd ar gyfer perfformiad.
- Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon â glendid, rhaglenni, gwerth am arian, cyfleusterau, hygyrchedd a darpariaeth barcio theatrau Sir Gaerfyrddin, gyda sgôr AIS o fwy nag 1 yn gyson.
- Cafodd y rhan fwyaf o aelodau'r fforwm 50+ a oedd wedi ymweld â'r theatrau wybod am y digwyddiadau drwy lyfrynnau, ar lafar a phosteri gyda llai nag 20% yn cael gwybodaeth o ffynonellau ar-lein.
- Y prif resymau am beidio â mynd i'r theatr oedd: diffyg ymwybyddiaeth, dim diddordeb yn y theatr, diffyg cyhoeddusrwydd, nad yw'r perfformiadau o ddiddordeb a thrafnidiaeth.
- Sut gall y cyngor annog unigolion i fynd i'r theatr: tocynnau rhatach, mwy o amrywiaeth o sioeau a gwell trafndiaeth.
- Ar gyfartaledd, ni fyddai gan 85% o unigolion ddiddordeb mewn mynd i sioeau Cymraeg ar draws y tair theatr yn Sir Gaerfyrddin.

Safonau Masnach

- Nodwyd galwadau ffôn niwsans/sgamiau dros y ffôn fel y prif fater y dylai'r Safonau Masnach roi blaenoriaeth iddo. Cafodd gwerthu ar garreg y drws a thwyll buddsoddiadau/pensiynau hefyd sgôr blaenoriaeth uchel.

- Cytunai ymatebwyr y byddai rhestr o adeiladwyr a masnachwyr wedi'u cofrestru a'u harchwilio gan y Safonau Masnach o fudd a bod galwadau ffôn niwsans yn broblem. Hefyd, mae'r duedd yn dangos, wrth i bobl fynd yn hŷn, eu bod yn llai hyderus yn defnyddio cyfrifiaduron.
- O ran rheoli materion ariannol, nododd aelodau'r fforwm 50+ mai ffrindiau a theulu, Cyngor ar Bopeth ac ymgynghorwyr ariannol annibynnol yw eu prif ffynonellau gwybodaeth.

Cymunedau Oed Gyfeillgar

- Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf/cytuno eu bod yn byw mewn cymuned oed gyfeillgar. Tuedd a welwyd oedd bod yr argraff fod cymuned Sir Gaerfyrddin yn un oed gyfeillgar yn cynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn.
- Nododd ymatebwyr y byddai gwella trafnidiaeth, monitro'r rhai sy'n byw ar ben eu hunain, codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn, cynyddu nifer y canolfannau dydd a chynyddu nifer y digwyddiadau sydd ar gael i bobl hŷn yn hyrwyddo cymuned oed gyfeillgar.
- Teimlai 59% o'r ymatebwyr nad yw'r Cyngor yn ymgynghori'n briodol â nhw ac nad yw'n myndi'r afael â'r materion craidd sy'n bwysig i oedolion hŷn.

Cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia

- Drwyddi draw nid oedd yr ymatebwyr yn anghytuno nac yn cytuno fod Sir Gaerfyrddin yn gymuned sy'n cefnogi pobl â dementia (AIS 0.02).
- Awgrymodd aelodau'r fforwm y byddai darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, creu grwpiau cymdeithasol, hysbysebu'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael a hyfforddi mwy o staff yn gwella Sir Gaerfyrddin fel cymuned sy'n cefnogi pobl â dementia.

Atal Codymau

- 'Archwilio priffyrdd, llwybrau troed a seilwaith goleuadau yn rheolaidd i nodi unrhyw ddiffygion sy'n peri perygl i'r cyhoedd' oedd y cam pwysicaf y mae'r Cyngor yn ei gymryd i atal codymau. Hefyd, roedd cefnogaeth i bob cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i leihau'r perygl o gwmpo, gyda phob un â sgôr AIS o fwy na 0.8.
- Palmentydd anwastad, grisiau, garddio ac iechyd corfforol oedd yr achosion a nodwyd amlaf pam fod pobl wedi cwmpo.
- Nodwyd mwy o gynnal a chadw palmentydd, cymorth ychwanegol i bobl sy'n agored i niwed a gwneud manau cyhoeddus yn fwy hygyrch fel camau ychwanegol y mae angen i'r Cyngor eu cymryd i leihau'r risg o gwmpo a pha mor gyffredin yw hynny.

Cyfleoedd i Gael Gwaith a Sgiliau Newydd

- Cytunai'r fforwm 50+ fod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a sgiliau newydd.
- Y cam a gafodd y sgôr AIS isaf oedd '*Sesiynau cynllunio cyn ymddeol – tynnu sylw at fanteision cyflogaeth barhaus, gwirfoddoli a dysgu.*' Y camau a gafodd y sgoriau AIS uchaf oedd '*Darparu dosbarthiadau cyfrifiadurol mewn llyfrgelloedd ledled y Sir*' ac '*Ystyried ymarferoldeb gosod band eang cyflym iawn mewn lleoliadau cymunedol ledled y Sir*'.
- Pe bai'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddsbarthiadau a digwyddiadau, yn cynnig mwy o ddewis o gyrsiau, yn cynyddu nifer y dosbarthiadau ym mhob rhan o'r sir ac yn darparu gwersi/dosbarthiadau llythrennedd TG, dywedodd ymatebwyr y byddai hyn yn annog aelodau i fanteisio ar y cyfleoedd.

- Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw eu cyfraniad fel gwirfoddolwyr yn cael digon o gymorth nac yn cael ei ddathlu gan y Cyngor. Nododd cyfranogwyr y gallai'r Cyngor godi ymwybyddiaeth, darparu cymorth ariannol, gwrandao ar ofalwyr, gwella hyfforddiant, darparu cynllun gwobrwyo a chynyddu'r cyfleoedd hyfforddi er mwyn helpu gwirfoddolwyr a gofalwyr.

Unigrwydd ac Arwahanrwydd

- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gymharol gryf fod y Cyngor yn gwneud popeth a all i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn Sir Gaerfyrddin.
- Awgrymodd aelodau'r fforwm y byddai gwella trafndiaeth gymunedol, cynyddu nifer y digwyddiadau mewn ardaloedd lleol a sefydlu cynllun ymweliadau cartref gan wirfoddolwyr yn help i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Awgrymodd ymatebwyr mai profedigaeth yw prif achos unigrwydd ac arwahanrwydd. Ymysg yr achosion allweddol eraill mae: diffyg teulu neu fod y teulu'n byw mewn ardal arall, trafndiaeth annigonol a salwch.
- Dywedodd canrannau uchel o'r ymatebwyr nad ydynt yn gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth ynglŷn ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Yn yr un modd, dywedodd canran uchel eu bod yn teimlo nad yw gwasanaethau gwirfoddol yn cael eu hysbysebu ddigon.